


A photograph of a person in a light-colored striped shirt and a grey suit jacket sitting at a wooden desk. Their right hand is on a computer mouse, and their left hand is near a black keyboard. A microphone is visible on the left side of the desk. The background is blurred, showing other people and a meeting environment.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes

**Adroddiad Etifeddiaeth
y Pedwerydd Cynulliad**

Mawrth 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddBusnes@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddBusnes

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes**

**Adroddiad Etifeddiaeth
y Pedwerydd Cynulliad**

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Aelodau'r Pwyllgor

Aelod Pwyllgor

William Graham (Cadeirydd)

Mohammad Asghar

Keith Davies

Rhun ap Iorwerth

Dafydd Elis-Thomas

Gwenda Thomas

Mick Antoniw

Jeff Cuthbert

Joyce Watson

Eluned Parrott

Plaid

Ceidwadwyr Cymreig

Ceidwadwyr Cymreig

Llafur Cymru

Plaid Cymru

Plaid Cymru

Llafur Cymru

Llafur Cymru

Llafur Cymru

Llafur Cymru

Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru

Etholaeth neu Ranbarth

Dwyrain De Cymru

Dwyrain De Cymru

Llanelli

Ynys Môn

Dwyfor Meirionnydd

Castell-nedd

Pontypridd

Caerffili

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Aelodau blaenorol y Pwyllgor

Aelod Pwyllgor

Byron Davies

Andrew RT Davies

Nick Ramsay

(Cadeirydd rhwng 2011 a mis
Chwefror 2014)

Julie James

David Rees

Ken Skates

Alun Ffred Jones

Leanne Wood

Plaid

Ceidwadwyr Cymreig

Ceidwadwyr Cymreig

Ceidwadwyr Cymreig

Llafur Cymru

Llafur Cymru

Llafur Cymru

Plaid Cymru

Plaid Cymru

Etholaeth neu Ranbarth

De-orllewin Cymru

Canol De Cymru

Mynwy

Gorllewin Abertawe

Aberafan

De Clwyd

Arfon

Canol De Cymru

Cylch gwaith y Pwyllgor:

Rôl y Pwyllgor yw craffu ar ddeddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn y meysydd polisi canlynol:

- Busnes a menter, gan gynnwys mewnfuddsoddi/allforion
- Ymchwil, datblygu ac arloesi
- Addysg uwch
- Technoleg a gwyddoniaeth
- Adfywio strategol, ffisegol ac etifeddol
- Cyflogaeth
- Datblygu'r gweithlu
- Sgiliau
- Cymwysterau galwedigaethol
- Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu seiliedig ar waith
- Cyngor ynghylch cyflogadwyedd a gyrfaedd
- Diwygio lles
- Seilwaith TGCh
- Trafnidiaeth
- Mentrau cymdeithasol
- Cynigion cronfeydd strwythurol yr UE
- Materion polisi perthnasol yr UE

CYFLAWNIADAU'R PWYLLGOR YN YSTOD Y PEDWERYDD CYNULLIAD



ADRODDIAD WEDĪ'U
CYHOEDDI GAN Y
PWYLLGOR

21

YMCHWILIAD
WEDĪ'U CYNNAL

CRAFFU AR **7** MEMORANDWM
CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL
A GYFEIRIWDYD AT Y PWYLLGOR

CRAFFU DEDDFWRIAETHOL AR DDEDDF
TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013

GWNEUD **307** ARGYMHELLIAD

DADANSODDIAD O WEITHGAREDD Y PWYLLGOR



- CRAFFU ARIANNOL **9%**
- CRAFFU DEDDFWRIAETHOL **6%**
- CRAFFU AR BOLISI **71%**
- GWAITH YMGYSYLLTU **14%**

FFEITHLUN ARLOESI AC YMGYSYLLTU



ATEBODD 1011

O BOBL EIN HAROLWG
DEFNYDDWYR BYSIAU



CYNHYRCHWYD

47 FIDEO



ANFONWYD
912
NEGES
TWITTER

16,000 O ARGRAFFIADAU
TWITTER AR GYFARTALEDD Y MIS

15,000 O YMWELIADAU
Â'N CYFRIF TWITTER

Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi rhoi pwyslais cryf ar waith craffu ar bolisi yn ystod y Cynulliad hwn - gan dreulio dros ddwy ran o dair o'n hamser ar hynny.

Roedd llawer o'r gwaith yn ymwneud â chadw Cymru i symud, ar y tir ac ar y môr. Gwnaethom hefyd ddod o hyd i amser i ystyried sut y gallai Cymru gyfrannu at ei pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd ac elwa ar hynny.

Mae'r awydd i fod yn arloesol yn y ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl Cymru wedi bod yn flaenllaw yn ein gwaith. Fe wnaethom deithio i sawl lleoliad gwahanol i glywed barn pobl o bob rhan o Gymru a'u cynnwys yn ein hymchwiliadau. Fe wnaethom drafod â pherchnogion busnesau bach yn Ynys Môn a Chasnewydd yn ogystal â Llywodraeth yr Iwerddon yn Nulyn sut i ddatblygu ein heconomi morwrol ac, ym mhob achos, rydym wedi ceisio dod o hyd i'r ffyrdd gorau o fynd i'r afael â'r heriau economaidd sy'n wynebu Cymru.

Rydym wedi bod yn arloesol o ran sut y mae pwyllgorau'n gweithio. Ni oedd y pwyllgor cyntaf i lansio adroddiad ar drên (y Siarter ar y fasnachfaint Rheilffyrdd). Rydym hefyd wedi arbrofi â dulliau llai ffurfiol ar gyfer casglu tystiolaeth - gan gynnwys seminarau brecwast ag arweinwyr busnes yng ngogledd a de Cymru i siarad am sgiliau a hyfforddiant, a grwpiau trafod bach o dan arweiniad aelodau'r pwyllgor i gasglu tystiolaeth am deithio llesol. Yn lle ysgrifennu adroddiad traddodiadol, lluniwyd Siarter ar gyfer masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau - yn nodi'r gofynion hanfodol ar gyfer masnachfaint rheilffyrdd sy'n gwasanaethu anghenion Cymru. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiynau hawdd i'w darllen o'n hadroddiadau er mwyn gwneud ein gwaith yn fwy hygyrch.

Mae ein gwaith wedi cael effaith gadarnhaol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Roedd penodi Llysgenhadon Cyllid yr UE - i hyrwyddo potensial cyllid yr UE ar gyfer busnesau yng Nghymru - yn awgrym yn un o'n hymchwiliadau. Cafodd ein hargymhellion i wella mynediad at ddigwyddiadau chwaraeon mawr eu derbyn gan weithredwyr y rheilffyrdd.

Mae'r adroddiad byr hwn yn nodi'r gwaith rydym wedi'i wneud ac yn awgrymu meysydd gwaith ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Ymgysylltu â phobl ifanc

Rydym wedi bod yn:

- Siarad â phobl ifanc i ddeall pam fod pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith nag unrhyw grŵp oedran arall;
 - Edrych ar yr hyn sy'n cael ei wneud i hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc a sut y gellir eu helpu i ddechrau busnesau.
-



Ymchwiliadau

Rydym wedi cynnal 21 ymchwiliad i faterion sy'n gallu gwneud gwir wahaniaeth i bobl a busnesau yng Nghymru. Fe wnaethom wrando ar unigolion a sefydliadau i glywed eu barn ynghylch pa newidiadau sydd eu hangen. Fe wnaethom hefyd ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig ac fe gyhoeddwyd adroddiad ar ddiwedd pob ymchwiliad. Roedd yr adroddiadau yn nodi argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac yna roedd y Llywodraeth yn ymateb iddynt. Mae'r holl dystiolaeth, ein hadroddiadau ac ymatebion Llywodraeth Cymru ar gael ar ein gwefan: www.cynulliad.cymru/SeneddBusnes

Busnes

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliadau er mwyn sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn cael y gefnogaeth gywir i ffynnu. Sef:

- **Adfywio canol trefi**
- **Potensial yr economi forwrol yng Nghymru**
- **Twristiaeth**
- **Y modd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi**

Sgiliau

Cynhaliwyd ymchwiliadau i bennu a oedd gan gyflogwyr ddigon o weithwyr medrus i ddatblygu'r economi. Sef:

- **Prentisiaethau yng Nghymru**
- **Helpu pobl ifanc i gael gwaith**
- **Cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl dros 50 oed**
- **Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM)**
- **Entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc**

Trafnidiaeth

Er mwyn asesu a yw seilwaith trafndiaeth Cymru yn gallu ymdopi â'r galw yn awr ac yn y dyfodol ai peidio, edrychodd y Pwyllgor ar amrywiaeth o faterion. Sef:

- **Teithio llesol: cychwyn y daith**
- **Bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru**
- **Dyfodol Masnachfaint Cymru a'r Gororau**
- **Blaenoriaethau o ran seilwaith rheilffyrdd Cymru**
- **Trafnidiaeth gyhoeddus integredig**
- **Cysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru**
- **Trafnidiaeth adeg Cwpan Rygbi'r Byd**

Prif-ffrydio agenda'r Undeb Ewropeaidd

Mae polisi a chyllid yr UE wedi bod yn rhan o sawl ymchwiliad. Rydym hefyd wedi cynnal sawl ymchwiliad pwrpasol ynghylch yr UE yn ymwneud â meysydd strategol allweddol. Sef:

- **Cyfleoedd Cyllido'r UE**
- **Horizon 2020 Cyfnod 1**
- **Horizon 2020 Cyfnod 2**
- **Dylanwadu ar y broses o foderneiddio polisi caffael yr UE**
- **Cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE 2014-2020**

Deddfwriaeth

Mae rhan o'n rôl yn cynnwys craffu ar ddeddfwriaeth i sicrhau ei fod yn ymarferol. Mae'r ddeddfwriaeth rydym wedi'i hystyried yn cynnwys:

- **Bil Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Rydym wedi trafod Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol - sy'n caniatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli - ar gyfer Biliau canlynol y DU:

- Y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth
- Y Bil Eiddo Deallusol
- Y Bil Twf ac Isadeiledd
- Y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio
- Bil yr Undebau Llafur

Gwaith arall:

- Y banc datblygu arfaethedig ar gyfer Cymru
- Y rhanbarthau dinas, y parthau menter a phrosiect arfaethedig y Metro
- Ymateb Llywodraeth Cymru i golli swyddi ar raddfa fawr
- Manteisio i'r eithaf ar effaith caffael sector cyhoeddus yng Nghymru
- Edrych ar ddarpariaeth band eang yng Nghymru

Gweithgarwch y Pwyllgor ledled Cymru

Bwyty Dylan's, Ynys Môn

Brecwast busnes cyd-fuddsoddi mewn sgiliau

Halen Môn, Anglesey

Ymchwiliad i fasnach a mewnfuddsoddi

Prifysgol Bangor

Ymchwiliad i'r economi forwrol

Blaenau Ffestiniog

Ymchwiliad i dwristiaeth

Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam

Ymchwiliad i seilwaith y rheilffyrdd

Arberth

Ymchwiliad i adfywio canol trefi

Tŷ Ddewi

Ymchwiliad i dwristiaeth

Tŷ a Gerddi Aberglasne

Ymchwiliad i dwristiaeth

Caerffili

Lansio'r adroddiad helpu pobl ifanc i gael gwaith

InfoNation Abertawe

Ymchwiliad i helpu pobl ifanc i gael gwaith

Prifysgol Cymru - Y Drindod Dewi Sant

Ymchwiliad i helpu pobl ifanc i gael gwaith

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

Ymchwiliad i'r economi forwrol

Bragdy SA Brains, Caerdydd

Brecwast busnes cyd-fuddsoddi mewn sgiliau

Swyddfa BT, Bae Caerdydd

Ymchwiliad i fand eang

Coleg Pen-y-bont

Lansio'r adroddiad ar brentisiaethau

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ymweld â Llundain, Manceinion, Henffordd, Brwsel, Lwcsembwrg a Dulyn.

Edrych i'r Pumed Cynulliad

Blaenoriaethau ar gyfer y Cynulliad nesaf

Fel rhan o'n gwaith etifeddiaeth, roeddem yn awyddus i adael rhestr hir o ymchwiliadau posibl ar gyfer y pwyllgor (neu bwyllgorau) nesaf. Rydym wedi'u rhannu yn ôl meysydd pwnc.

Roedd y pwyllgor yn gryf o blaid dau ddarn penodol o waith:

Ystyried effaith refferendwm yr UE (beth bynnag fydd y canlyniad) ar economi Cymru ac edrych yn agosach ar strategaeth sgiliau Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd o'r farn - yn dibynnu ar y cynnydd rhwng nawr a'r haf - bod angen gwaith craffu pellach o ran llywodraethu, cynnydd a datblygiad prosiect y Metro.

Efallai y bydd y Pwyllgor nesaf yn dymuno ystyried yr awgrymiadau canlynol ar gyfer ei ymchwiliadau:

Sgiliau

- Craffu ar strategaethau sgiliau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a yw Cymru'n hyfforddi pobl yn y sgiliau cywir ar gyfer ei hanghenion economaidd.
- Asesu effaith y gostyngiadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer Gyrfu Cymru a chanlyniadau hynny ar rôl y sefydliad a'i gylch gwaith.
- Craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru (o dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond) yn hydref 2016.

Yr Economi

- Ymchwilio i sut y gallai gogledd Cymru elwa ar fenter y Northern Powerhouse.
- Craffu ar ddibenion y Dinas-ranbarthau a pha ysgogiad byddant yn cael er mwyn llwyddo.
- Ceisio eglurder pellach ynghylch union gylch gwaith Banc Datblygu Cymru a'r amserlen ar gyfer ei sefydlu.
- Ymchwilio i'r gwahanol opsiynau ar gyfer gwneud newidiadau i ardrethi busnes yng Nghymru.
- Cynnal ymchwiliad i'r economi a rhywedd. Gallai hyn gynnwys cyllidebu ar sail rhywedd i weld pa effaith y mae penderfyniadau cyllido yn cael ar grwpiau gwahanol.

Trafnidiaeth

- Edrych ar lywodraethu, datblygiad a chynnydd prosiect y Metro.
- Edrych ar baratodau Llywodraeth Cymru ar gyfer Masnachfaint Rheilffyrdd nesaf Cymru.
- Trafod pa mor effeithiol y mae Cymru o ran cyfrannu at leihau allyriadau carbon trafnidiaeth a sut y gallai polisiâu Llywodraeth Cymru, fel yr agenda teithio llesol, gefnogi hynny'n well.
- Asesu effaith prynu maes awyr Caerdydd ar yr economi ac ydyw wedi cynhyrchu'r gwell cysylltedd a'r manteision economaidd a ragwelwyd yn yr achos busnes.
- Trafod pa welliannau sydd wedi'u gwneud o ran integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Ymchwilio i ddarpariaeth priffyrdd yng Nghymru a'u heffaith ar bobl, busnesau a'r amgylchedd. Er enghraifft, prosiectau fel uwchraddio'r A470, yr A465, yr A55 a ffordd liniaru'r M4.
- Ymchwilio i gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid cyfalaf a sut y gallai Cymru ddenu ffynonellau cyllid ychwanegol, fel Banc Buddsoddi Ewrop, Cyfleuster Cysylltu Ewrop a buddsoddiadau preifat.

Ymgysylltu â pholisi a chyllid yr UE

- Ymchwilio i ganlyniadau refferendwm yr UE ar economi Cymru.
- Cynnal adolygiad o Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr UE.
- Gwneud gwaith dilynol ar gyflawni'r argymhellion ynghylch cyfleoedd Cyllido'r UE, yn enwedig rôl Llysgenhadon Cyllid yr UE o ran codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd cyllido.

